Dros Gymru'n gwlad, O Dad

Caneuon Ffydd: Rhif 852

Dros Gymru'n gwlad, O Dad, dyrchafwn gri,
y winllan wen a roed i'n gofal ni;
d'amddiffyn cryf a'i cadwo'n ffyddlon byth,
a boed i'r gwir a'r glân gael ynddi nyth;
er mwyn dy Fab a'i prynodd iddo'i hun,
O crea hi yn Gymru ar dy lun.

O deued dydd pan fo awelon Duw
yn chwythu eto dros ein herwau gwyw,
a'r crindir cras dan ras cawodydd nef
yn erddi Crist, yn ffrwythlon iddo ef,
a'n heniaith fwyn â gorfoleddus hoen
yn seinio fry haeddiannau'r addfwyn Oen.

LEWIS VALENTINE, 1893–1986

MYFYRDOD

Gresynwn yn aml fod cyflwr ein gwlad fel ag y mae hi, ond mae hi'n hawdd gresynu ac yn hawdd gweld bai ar genhedlaeth sydd wedi codi ac sydd eto yn codi, am beidio â dilyn llwybrau y rhai a aeth o'u blaenau, am beidio â pharchu'r etifeddiaeth deg sydd wedi ei throsglwyddo i ni. Fel y dywed Gerallt Lloyd Owen yn ei gerdd 'Etifeddiaeth':

> Cawsom wlad i'w chadw,
> darn o dir yn dyst
> ein bod wedi mynnu byw.

Peidiwn â gresynu, peidiwn â beirniadu'r genhedlaeth bresennol; y mae'r pydredd yn y pren ers cenedlaethau, er pan ddechreuwyd diystyru 'amddiffyn cryf' Duw ein Tad nefol drosom fel cenedl.

Gweddïo a dyheu mae Lewis Valentine yn ei wneud yn yr emyn adnabyddus hwn, ac mae hynny'n agwedd lawer mwy adeiladol na gresynu a beirniadu. Roedd Lewis Valentine yn cofio

'blynyddoedd deheulaw y Goruchaf' (Salm 77:10, BWM) yma yng Nghymru, ac yn gwybod nad anghofiodd Duw ei addewid inni a'i drugaredd tuag atom. Mae'n dal gafael yn yr addewid honno yn ei bennill cyntaf: 'd'amddiffyn cryf a'i cadwo'n ffyddlon byth', ac nid yw'n gollwng gafael ynddi. Bron na allwn ni ddweud ei fod yn gweddïo yma fel pe byddai eisoes wedi derbyn yr hyn y galwa amdano. Felly mae Iesu'n gorchymyn inni weddïo mewn ffydd: '"A pha beth bynnag a ofynnoch mewn gweddi, gan gredu, chwi a'i derbyniwch"' (Mth. 21:22, BWM), meddai wrth ei ddisgyblion, gan eu hatgoffa bod ffydd yn gallu symud mynyddoedd.

Rhywbeth i ddal gafael ynddi ac i'w diogelu gyda'ch bywyd oedd gwinllan yng nghyfnod y Beibl. Cofiwn am hanes Naboth yn colli ei fywyd oherwydd bod Ahab y brenin wedi llygadu ei winllan, a'i wraig Jesebel wedi trefnu ffordd i gael gwared â Naboth er mwyn i'w gŵr gael ei ddymuniad. '"Yr Arglwydd a'm gwaredo rhag rhoi i ti etifeddiaeth fy hynafiaid' (1 Bren. 21:3) oedd ateb Naboth i gais Ahab am ei winllan, er ei fod yn cynnig un well iddo yn ei lle. Gyda'r un penderfyniad mae Lewis Valentine yn cyfeirio yma at Gymru fel 'gwinllan wen a roed i'n gofal ni;, nid yw'n barod i'w hildio i neb arall, nac iddi fod yn rhan o deyrnas neb arall heblaw teyrnas Dduw. Mae'r thema o Gymru fel gwinllan bellach yn un gref yn ein plith, a dichon mai Lewis Valentine yma a Saunders Lewis yntau, pan ysgrifennodd am 'winllan a roddwyd i'm gofal yw Cymru fy ngwlad' yn ei ddrama *Buchedd Garmon*, sydd yn bennaf cyfrifol am y ddelwedd hon.

Ond nid oes diben yn y byd mewn cael gwinllan onid ydym yn gofalu amdani ac onid ydy hi'n dwyn ffrwyth. Mae Lewis Valentine yn cydnabod mai 'erwau gwyw' sydd gennym bellach ac mai 'crindir cras' sydd yn ein gofal, ac yn dyheu a galw am 'gawodydd nef' ac 'awelon Duw' i chwythu'r rheiny i'w lle, er mwyn i'r winllan gael dwyn ffrwyth iddo ef eto a bod yn rhan o 'erddi Crist', gyda'n hiaith yn cael ei defnyddio i'r diben y'i bwriadwyd, sef i 'seinio fry haeddiannau'r addfwyn Oen'.

GWEDDI

O Dduw Dad, y gwinllannwr, gad inni alw allan arnat a dyheu am y fendith a'r awelon a'r cawodydd yr wyt ti'n abl i'w rhoi inni yng Nghymru, a gad inni weddïo fel pe byddem ni eisoes wedi eu derbyn. Yn haeddiant yr addfwyn Oen. Amen.